**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD IAU, 21 CHWEFROR 2013**

**10.00 a.m. THURSDAY, 21 FEBRUARY 2013**

Lleoliad / Location

**Siambr Arfon**

**Swyddfa Ardal Arfon**

**Penrallt**

**CAERNARFON**

**Nodwch y lleoliad, o.g.y.dd. / Please note the venue**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

**: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 14.02.13

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH / MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Huw Edwards
Alan Jones Evans
Chris Hughes
Elin W. Jones
Linda Ann Wyn Jones
Liz Saville Roberts
Dyfrig Siencyn
Ann Williams
Hefin Williams

### Annibynnol / Independent (5)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Beth Lawton
Dewi Owen
Eirwyn Williams
Elfed Williams

### Llais Gwynedd (3)

Alwyn Gruffydd
Llywarch Bowen Jones
Peter Read

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Selwyn Griffiths a / and Huw Edwards

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:**
**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /**

**With a vote on education matters only**

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd /
Representative for Meirionnydd Parent Governors

Mr John Fraser Williams
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon /
Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor /
Representative for Dwyfor Parent Governors

**R H A G L E N**

1. **YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. **COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2013, fel rhai cywir.

(Copi'n amgaeedig – Papur Hufen)

5. **YMATEB CYNGOR GWYNEDD I ADRODDIAD CYD-AROLYGU SIR BENFRO**
***Aelodau Cabinet: Y Cyng. Sian Gwenllian / R H Wyn Williams***

I ystyried cyd-adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (ITJ) a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – Papur Gwyn)

6. **RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL**

Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith.

(Copi'n amgaeedig – Papur Lelog)

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
# 10.01.13

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Peter Read – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr: Huw Edwards, Christopher Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Llywarch Bowen Jones, Siôn Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dewi Owen, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Wyn Williams ac R. Hefin Williams.

**Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig:** Mr Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd)

**Swyddogion:** Ann Lloyd Jones (Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion), Dafydd Bulman (Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Teleofal Gwynedd ), Stephen Barnard (Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gyfundrefn), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Alan Jones Evans a Selwyn Griffiths (Aelod ex-officio), R H Wyn Williams (Aelod Cabinet Gofal), Paul Thomas (Aelod Cabinet Gwynedd Iach), Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru), Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Rhian Roberts (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor), Morwena Edwards (Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden).

## 1. CROESO

Nododd y Cadeirydd mai braf ydoedd croesawu y Cynghorwyr Huw Edwards a Peter Read i'r cyfarfod yn dilyn cyfnod o absenoldeb yn ddiweddar oherwydd anhwylder.

## 2. PRESENOLDEB AELODAU'R CABINET

(a) Cyn ymdrin â'r eitemau craffu, datganwyd siom ac anfodlonrwydd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu nad oedd Aelodau'r Cabinet yn bresennol yn y cyfarfod i ymateb i ymholiadau'r Pwyllgor yn deillio o'r eitemau craffu. Teimlai'r Aelodau yn anniddig iawn ac roedd hyn yn profi pa mor ddi-werth ydoedd y Pwyllgorau Craffu yn eu tyb hwy.

(b) Mewn ymateb esboniodd y Cadeirydd ei fod yn ymwybodol ymlaen llaw o absenoldeb yr Aelodau Cabinet perthnasol a'u bod wedi ymddiheuro yn bersonol wrtho gan nad oedd modd iddynt fynychu oherwydd ymrwymiadau pwysig eraill. Yn sgil hyn felly, cymerodd y Cadeirydd y penderfyniad i fwrw ymlaen i gynnal y Pwyllgor Craffu serch nad oedd yr Aelodau Cabinet ar gael.

(c) Pwysleisiodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid i'r dyfodol sicrhau bod Aelodau'r Cabinet yn mynychu ac nad oes cyfarfodydd / hyfforddiant yn cael eu trefnu i wrthdaro gyda'r Pwyllgorau Craffu.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd anfon i'r Rheolwr / Penaethiaid i sicrhau nad ydynt yn trefnu cyfarfodydd / hyfforddiant ar ddyddiadau'r Pwyllgorau Craffu i'r dyfodol.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones Williams fuddiant personol ym materion gofal oherwydd bod ei wraig yn derbyn gofal ac y byddai'n gadael y Siambr pe byddir yn trafod materion yn ymwneud â'r buddiant hwnnw.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2012 fel rhai cywir.

**5. GWEITHIO'N HYBLYG**

(a) Cyflwynwyd adroddiad cynnydd yn nodi'r camau nesaf yn dilyn cwblhau cynllun peilot o weithio'n hyblyg yn ardal Meirionnydd ers Hydref 2011.

(b) Adroddodd Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion mai bwriad y cynllun uchod ydoedd i symud ymlaen i gael cydweithio gwell gyda staff y Bwrdd Iechyd a gweithwyr cymdeithasol y Cyngor ac i adnabod arbedion drwy leihau costau teithio. Fel rhan o'r cynllun sefydlwyd canolfannau o fewn adeiladau iechyd yn ardal Meirionnydd sef Ysbytai Alltwen, Blaenau Ffestiniog, Tywyn a Meddygfeydd yn y Bala ac Abermaw. Golygai hyn bod llawer mwy o staff allan yn y cymunedau ac o ganlyniad ddim angen cymaint o le yn swyddfeydd Cae Penarlâg. Golygai hefyd bod nyrsys yn gallu cael mynediad i sustemau'r Cyngor ac yn derbyn gwybodaeth gywir a chyflym.

(c) Derbyniwyd cefnogaeth gan Adran Adnoddau Dynol ac esboniodd y Rheolwr Adnoddau Dynol bod y cynllun peilot yn llwyddiannus o safbwynt staff. Nid oedd tystiolaeth o ran arbedion yng nghostau teithio ond rhagwelir arbedion damcaniaethol yng nghostau cynnal a chadw dwy swyddfa ym Meirionnydd, sef oddeutu £10,000 y flwyddyn. Nodwyd nad oedd costau sefydlu'r cynllun yn syrthio ar y gwasanaeth ond yn hytrach yn cael ei gyllido yn ganolog. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod cynllun cyffelyb wedi gweithio mewn awdurdodau eraill gydag arbedion sylweddol o ran costau teithio. Y cam nesaf o safbwynt corfforaethol ydoedd cyflwyno adroddiad i'r Cabinet er ystyriaeth i ymestyn y cynllun ar draws y Cyngor. Fe fyddai'r cynllun yn cael ei ariannu o gronfa ganolog ac fe adnabuwyd oddeutu 200 o swyddi all fod yn rhan o'r cynllun a fydd yn ei dro yn creu arbedion i'r Cyngor.

(ch) Nodwyd bod cyfnod y cynllun peilot wedi dod i ben ym Meirionnydd ac wedi ei dderbyn fel trefniant parhaol. Bwriedir ymestyn y cynllun ar draws Gwasanaethau Oedolion yn ardaloedd Arfon a Dwyfor maes o law.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu cynnwys yr adroddiad ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag effaith gweithdrefn y cynllun ar y cleientiaid, adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion yn gyffredinol bod pobl yn hapus gyda'r cynllun ac ni welwyd dirywiad yn y gwasanaeth a theimlwyd bod gwell cydweithrediad rhwng y gweithwyr.

(ii) Yn dilyn o'r ymholiad uchod, nodwyd y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad pellach yn amlinellu mesur llwyddiant y cynllun i'r defnyddwyr.

(iii) nodwyd pryder yn dilyn ymgynghoriad diweddar o'r gwasanaeth, bod oddeutu 76% o gwsmeriaid yn anhapus wrth ffonio'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan nodi diffyg ymateb yn ôl, methu dod o hyd i ffeiliau, a.y.b. a chwestiynwyd sut fyddai hyn yn effeithio ar y cynllun uchod. Roedd yr Aelod yn ymwybodol o enghreifftiau unigol lle cynhaliwyd asesiad dros y ffon gyda chleiant ac nad oedd y client wedi derbyn adborth yn ôl. Pwysleisiwyd yr angen os yw staff yn gweithio o gartref bod gweithdrefn mewn lle i alluogi defnyddwyr i'w ffonio a bod cyfarpar mewn lle i ddargyfeirio galwadau a chadw negeseuon.

(iv) Mewn ymateb i'r uchod, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion bod angen diweddaru'r trefniadau teliffon ym Mhenrallt, a hefyd ail-ystyried cyfundrefn y Tîm Cynghori ac Asesu sydd yn derbyn y galwadau ffôn cychwynnol ac sydd wedi eu lleoli yn y Ganolfan Gyswllt ym Mhenrhyndeudraeth er mwyn manteisio ar y dechnoleg yno.

(v) O safbwynt costau sefydlu cynllun gweithio'n hyblyg i ardaloedd Arfon a Dwyfor, ni ellir ar hyn o bryd fod yn bendant o'r costau ond y tebygolrwydd ydoedd y byddai costau sefydlu yn gyffelyb i'r gyfundrefn ym Meirionnydd ond byddai'r arbedion yn fwy.

(vi) Pwysleisiwyd pwysigrwydd i'r cynllun weithio'n llwyddiannus a ddim yn fodd o wastraffu arian.

(vii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â sicrwydd bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad at y swyddogion priodol sy'n gweithio fel rhan o'r cynllun, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion bod gan y gweithwyr sydd yn gweithio o adref fynediad at ffonau symudol. Yn ogystal gall defnyddwyr ffonio'r swyddfa yn Nolgellau a gadael negeseuon gyda threfniant bod y negeseuon yn cael eu trosglwyddo i'r swyddogion sydd yn gweithio o adref.

(viii) Awgrymwyd y dylid gofyn i'r Aelod Cabinet Gofal gyflwyno adroddiad cynnydd parthed y cynllun uchod i'r Pwyllgor Craffu gan amlinellu effaith y polisïau ar y defnyddwyr.

(ix) Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Adnoddau Dynol mai'r bwriad ydoedd cyflwyno adroddiad i'r Cabinet am gymeradwyaeth i sefydlu cynllun corfforaethol i ymestyn gweithio'n hyblyg ar draws Adrannau Cyngor yn ei gyfanrwydd. Fe fyddir wedi hynny, yn blaenoriaethu gweithrediad y Cynllun gyda'r cynllun i ardal Arfon a Dwyfor yn rhan o'r blaenoriaethau hynny.

(x) Yn yr un modd gofynnwyd am wybodaeth ynglŷn â nifer o gleientiaid presennol y Gwasanaethau Cymdeithasol ers dyfodiad y Cyngor yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol gyda'r wybodaeth i gynnwys:

- Achosion sydd yn agored
- Achosion sydd yn sefydlog ac sydd yn derbyn adolygiad blynyddol
- Achosion sydd mewn cartrefi preswyl / nyrsio

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r sylwadau uchod.**

**(b) Gofyn i'r Aelod Cabinet Gofal gyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Craffu hwn ar ddatblygiadau'r cynllun Gweithio'n Hyblyg i gynnwys y wybodaeth amlinellir yn (viii) a (ix) uchod fel bod yr Aelodau yn rhan o'r broses.**

**(c) Gofyn i'r Aelod Cabinet Gofal ddarparu adroddiad i holl Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn amlinellu'r wybodaeth a ofynnir amdano yn (x) uchod.**

## 6. CYNLLUN GALLUOGI A GALWADAU TELEOFAL

Cyflwynwyd adroddiad yn ymateb i nifer o gwestiynau a ofynnwyd ynglŷn â chynllun Galluogi a Galwadau Teleofal.

### (A) Cynllun Galluogi

Nododd y Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Teleofal y derbyniwyd 342 unigolyn gyfnod o alluogi yng Ngwynedd yn ystod 2011/12 ac fe osodwyd targed o 425 unigolyn ar gyfer 2012/13 ac ar ddiwedd chwarter 2 cyfeiriwyd 232 unigolyn drwy'r trefniadau galluogi. Ychwanegwyd bod y gwasanaeth angen gwneud gwaith pellach i ddeall gwahaniaeth ym mherfformiad yr ardaloedd megis:

- Y math o achosion a gyfeirir at sylw'r gwasanaeth
- Y ffordd a ymatebir i'r achosion
- Ffactorau eraill, e.e. y gefnogaeth sydd ar gael yn y cymunedau

Nododd ymhellach nad oedd y Gwasanaeth wedi holi'r defnyddwyr ynglŷn â'u profiadau a bwriedir gwneud hyn yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd nifer fechan o gwynion yn ystod 2011/12 ond hyd at ddiwedd chwarter 2 ni dderbyniwyd cwynion pellach.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu cynnwys yr adroddiad yn ymwneud â'r uchod ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Diffyg asesiad o unigolion sydd yn cyrraedd gartref yn dilyn derbyn triniaeth mewn Ysbytai tu allan i Wynedd ac o ganlyniad ymddengys nad yw cleifion yn derbyn gofal cartref yn syth ar ôl dod o'r ysbyty. Pwysleiswyd yr angen i Fyrddau Iechyd Hywel Dda ac Ysbytai megis Broadgreen, Manceinion, gynnal asesiadau o'r cleifion cyn iddynt eu hanfon adref fel eu bod yn cael y ddarpariaeth cynllun galluogi yn syth ar ôl cyrraedd adref. Y canlyniad yw bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gorfod cynnal asesiad sydd yn golygu lleihad yng nghyfnod y cynllun galluogi.

Mewn ymateb, cydnabyddai'r Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion bod y berthynas rhwng y Gwasanaeth ac Ysbytai tu allan i'r Sir yn anodd ac y byddai'r Gwasanaeth yn gwerthfawrogi trafodaethau pellach gyda'r ysbytai ynglŷn â sut i ddatrys y broblem. Roedd y swyddog o'r farn nad oedd angen asesiad cyflawn cyn i gleifion gael eu hanfon

adref yn dilyn triniaeth ac y gellir cynnig rhyw fath o wasanaeth ar eu cyfer. Roedd o'r farn bod cyfnod galluogi yn gyfnod o asesiad yn ei hun i weld lle gellir cynnig cefnogaeth. Teimlwyd bod asesiadau yn werthfawr os ydynt yn cael eu cyflawni yng nghartrefi'r cleifion. Nodwyd pwysigrwydd i gynnal trafodaethau rhwng yr Ysbytai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol rhag bo cleifion yn disgyn trwy'r rhwyd ac o ganlyniad ddim yn derbyn asesiadau cyn cael eu hanfon adref.

Yn deillio o'r uchod, nododd y Cadeirydd bwysigrwydd drwy'r Pwyllgor Craffu i gysylltu â'r Byrddau Iechyd tu allan i'r Sir i fynegi pryder ynglŷn â'r uchod a gofyn sut y gellir gwella'r trefniadau i liniaru'r problemau amlinellwyd ynglŷn ag asesiadau cleifion sydd yn cael eu hanfon adref o'r ysbytai.

(ii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â phwy sydd yn penderfynu faint yw cyfnod y ddarpariaeth galluogi, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion mai'r Swyddog Galluogi sydd yn dystod yr ymweliad yn nodi'r tasgau mae'r claf angen gyda'r penderfyniad terfynol yn gyfrifoldeb i'r Uned Darparu ynglŷn â'r oriau a ddarparir.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chymwysterau / hyfforddiant i ofalwyr, nododd yr Uwch Reolwr Datblygol (Uned Darparu) bod dros 50% o'r staff wedi eu hyfforddi hyd at Lefel 2 NVQ ac uwch ac fe drefnir hyfforddiant ychwanegol parthed y cynllun galluogi. O safbwynt dwyieithrwydd a defnydd o'r Gymraeg, nodwyd bod disgwyliad i'r staff fod yn ddwyieithog ond profir anhawster yn ardal Meirionnydd i ddenu staff dwyieithog.

(iv) Yn deillio o'r ymateb uchod, nododd sawl Aelod bryder ynglŷn â'r ffaith nad oedd cleifion yn derbyn ymweliadau gan unigolion sy'n siarad Cymraeg o ystyried y pwysau sydd ar y Gwasanaeth i geisio cadw unigolion yn eu cymunedau a natur sensitif a bregus rhai cleifion. Yn ogystal, mynegwyd pryder nad oedd gan y Cyngor drefniadau cysgodi staff ac fe all i fyny at 6 unigolyn fod yn ymweld â chlaf ac felly nid oes dilyniant i'r gwasanaeth maent yn derbyn.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Datblygol nad oedd gan y gwasanaeth drefn cysgodi a nodwyd bod ganddynt bron iawn i 10,000 o alwadau yn wythnosol i'w cyflawni a'r adnoddau yn anffodus ddim yn ymestyn i gynnig trefniadau cysgodi. Cydnabyddai bod y trefniadau yn golygu bod staff yn ymweld â chleifion sydd heb gael eu cyflwyno i'r teulu yn y lle cyntaf.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion bod cytundeb rhwng y Gwasanaeth a darparwyr allanol gan Gwmnïau Preifat ac mae disgwyliad arnynt i hyfforddi staff yn unol â safonau disgwyliedig.

(v) Yn sgil diffyg darpariaeth Cymraeg i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ardal Meirionnydd, mynegodd Aelod bryder bod y Cyngor yn methu yn ei egwyddorion fel Sir i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i ddarparwyr. Gofynnwyd am eglurhad o'r hyn sydd yn digwydd fel Cyngor i hybu defnydd o'r Gymraeg ac i ddenu staff dwyieithog i'r maes hwn. Teimlai'r Aelod yn gryf y dylai defnydd o'r Gymraeg gael ei adlewyrchu o fewn y cymhwyster NVQ ac y dylid trafod gyda Cholegau sy'n darparu hyfforddiant am werth y Gymraeg yn y gweithle.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion bod strategaeth yn bodoli i ddatblygu'r gweithlu sydd yn cynnwys gweithlu gofal cymdeithasol. Roedd hefyd yn ymwybodol bod gwaith yn mynd rhagddo i edrych sut y gellir cefnogi darparwyr yn arbennig yn y sector breswyl er mwyn ceisio denu siaradwyr Cymraeg.

(vi) Ychwanegodd Aelod y ceir sefyllfaoedd lle mae cleifion yn enwedig rhai sy'n dioddef o ddementia ddim yn gallu siarad Saesneg a gofynnwyd beth yw'r trefniadau mewn sefyllfaoedd o'r fath. Pwysleiswyd bod rhai o'r cleifion yn bobl fregus a ddim yn barod i gwyno.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion bod ganddynt drefniant broceriaeth i weithio allan anghenion y claf ac yn gyffredinol ceisir darparu gwasanaeth i unigolion yn yr iaith maent yn ddewis siarad. Fodd bynnag, fe geir achosion lle nad yw'n bosibl i ddarparu gwasanaeth Cymraeg a rhaid dibynnu ar wasanaeth gan unigolion Saesneg a'r unig opsiwn arall fyddai cynnig darpariaeth i'r claf mewn cartref preswyl tra'n derbyn nad yw hynny'n dderbyniol pob amser.

(vii) Yn deillio o'r pryderon amlygwyd gan yr Aelodau, awgrymwyd y dylid derbyn adroddiad gan yr Aelod Cabinet i wyntyllu'r broblem ieithyddol ymhellach er mwyn ceisio datrys y broblem.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion i gysylltu â'r Byrddau Iechyd tu allan i Wynedd i fynegi pryder y Pwyllgor Craffu hwn ynglŷn â'r berthynas rhwng Ysbytai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a sut gellir gwella'r trefniadau o dderbyn asesiadau cleifion sydd yn cael eu hanfon adref o'r ysbytai ac angen darpariaeth y cynllun galluogi.**

**(c) Gofyn i'r Aelod Cabinet Gofal gyflwyno adroddiad cynhwysfawr ynglŷn â hyfforddiant a defnydd o'r iaith Gymraeg gan weithlu gofal cymdeithasol.**

**(B) Cynllun Teleofal**

Yng nghyd-destun y cynllun Teleofal, amlygodd yr Aelodau'r pwyntiau canlynol:

(i) Cwestiynwyd y swyddogion ynglŷn â chost y cynllun uchod i'r defnyddwyr a'r ffaith bod llawer o bensiynwyr yn methu fforddio'r gwasanaeth hwn ac oni ddylent felly fod yn derbyn y gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Mewn ymateb ynglŷn â chost y cynllun i'r defnyddwyr, esboniodd y Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Teleofal ei fod yn costio £3.20 yr wythnos ac yn wyneb y ffaith bod teclynnau yn eithaf drud teimlir ei fod yn deg i ofyn i'r defnyddwyr gyfrannu at y gost. Roedd y polisi codi tal o'r gwasanaeth hwn yn rhan o gynllun busnes y gwasanaeth a chymerwyd y farn y byddai'n rhesymol i godi tâl am y defnydd. Fodd bynnag, fel mater o drefn roedd yn rhydd i unrhyw unigolyn gyflwyno apêl i'r gwasanaeth ynglŷn â'r taliad pe dymunent.

(ii) pryder bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cymryd mantais o gynlluniau fel yr uchod i anfon cleifion adref o'r ysbytai ynghynt er mwyn gwneud arbedion. Dylid gwneud cais i'r Bwrdd Iechyd am gyfraniad tuag at gostau'r cynllun.

(iii) Y dylid gwirio'r drefn parthed y rhestr o'r unigolion hynny sydd wedi datgan eu bod yn fodlon gweithredu fel ymatebwyr i unrhyw alwad gan ddefnyddwyr y cyfarpar teleofal oherwydd yn aml ai pheidio tueddiad ydyw eu bod yn oedrannus eu hunain a ddim ddigon abl i fynd i ymateb i unrhyw argyfwng.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion tra'n derbyn yr angen i ymchwilio i addasrwydd ymatebwyr, yr unigolion sydd yn dewis yr ymatebwyr a thueddiad ydyw iddynt ddewis aelodau o'r teulu, sydd efallai yn oedrannus eu hunain.

(iv) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag ehangu Uned Lleu a weithredir ym Mhenygroes, esboniodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion nad oedd wedi derbyn adborth cyflawn eto ond hyderai y bydd llawer mwy o wybodaeth bendant mewn oddeutu chwe mis ac y byddai'n rhaid wedyn ystyried lle gellir lleoli unedau cyffelyb mewn ardaloedd eraill. Nodwyd bod oddeutu 50% o'r unigolion sydd wedi mynychu'r Uned wedi mynd yn ôl adref gyda phecyn gofal neu'n annibynnol. Ychwanegodd bod y defnyddwyr yn deilwng o hyd at 6 wythnos o wasanaeth yn rhad ac am ddim.

(v) Pryderai Aelod pe byddir yn ehangu'r ddarpariaeth o Unedau fel y gweithredir ym Mhenygroes y bydd yn gyfle wedyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfeirio i'r gwasanaethau fel gwasanaeth cymdeithasol ac ofnai pe byddir yn ei ehangu i ardal Blaenau Ffestiniog y byddai'n gyfle i'r Bwrdd Iechyd gau'r Ysbyty.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 7. TECLYNNAU SYMUDOL

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach mewn ymateb i gwestiwn o ba mor effeithiol yw teclynnau PDA Gofal Cymunedol ar draws y Sir?

(a) Adroddodd yr Uwch Reolwr Datblygol bod oddeutu 46% o staff y Gwasanaeth Gofal Cymunedol yn defnyddio'r teclynnau symudol a'u bod yn effeithiol ac yn werthfawr dros ben. Defnyddir y teclynnau er mwyn derbyn gwybodaeth mewn perthynas â chynlluniau gofal y defnyddwyr a hefyd i fonitro amseroedd cychwyn a gorffen yr ymweliadau.

(b) Eglurwyd bod y teclynnau wedi eu cysylltu gyda'r darparwr rhwydwaith Vodafone ac yn gyffredinol ni cheir problemau gyda'r signal ond deallir nad ydynt yn gweithio ymhob man ar draws y Sir. Mae'r Adran yn cydweithio'n barhaus gyda'r cwmni sy'n darparu'r meddalwedd er mwyn darganfod ffyrdd i oresgyn y diffyg ond cyfyngedig yw'r datrysiadau heb gael mynediad i signal symudol gwell ar draws Wynedd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) gofynnwyd i'r Uwch Reolwr Datblygu am ffigyrau o'r gost o archebu'r teclynnau hyn yn ogystal â faint o arbediad sydd wedi ei gwireddu o ganlyniad i'w defnydd.
(ii) Datganwyd siom nad oedd yn bosibl datrys y broblem o dderbyn signal i'r teclynnau ar draws Wynedd gyfan ac o ganlyniad bod ardaloedd ym Meirionnydd yn colli allan
(iii) Pa bryd a fyddir yn diweddaru'r teclynnau am rhai mwy modern?

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr ymateb ysgrifenedig gan yr Aelod Cabinet.**

**(b) Gofyn i'r Uwch Reolwr Datblygu ddarparu ymateb ffurfiol i'r Aelodau yng nghyswllt (i) i (iii) uchod.**

**8. RHAGLEN WAITH BLYNYDDOL**

(a) Cyflwynwyd fersiwn ddiweddaraf o raglen waith y Pwyllgor Craffu hwn.

(b) Adroddodd y Cadeirydd y derbyniwyd cais i ymgynnull y gweithgor Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg ar 22 Ionawr 2013 i drafod crynodeb o Hunan Arfarniad yr Awdurdod Addysg ar gyfer Arolwg ESTYN sydd i'w gynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 11 Mawrth 2013 ac i gynnig sylwadau agoriadol i'r Gwasanaeth Addysg. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu os oeddynt yn hapus i'r gweithgor weithredu yn y modd hwn gan ychwanegu bod cyfle i holl Aelodau'r Pwyllgor Craffu dderbyn copi o'r Hunan Arfarniad os dymunent a chynnig sylwadau a'u cyfeirio'n uniongyrchol i'r Gwasanaeth Addysg.

(c) Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod buddiol a diddorol yn ddiweddar o Rwydwaith Cadeiryddion Craffu Addysg drwy Gymru. Un o'r eitemau a godwyd yn y cyfarfod hwnnw ydoedd Diogelu Plant / Oedolion ac yn gysylltiedig â hyn trafodwyd a phwysleisiwyd yr angen i Gynghorau, fel Craffwyr, drafod ac ymateb i'r adolygiad yr Arolygiaethau ar y cyd o arferion a threfniadau rhyngasiantaethol i ddiogelu ac amddiffyn plant yn deillio o'r achos yn Sir Benfro. Roedd y Cadeirydd o'r farn mai priodol fyddai i'r Pwyllgor Craffu hwn dderbyn manylion o'r ymchwiliad uchod a'i drafod ymhellach yng nghyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor sydd i'w gynnal ar 17 Ionawr 2013.

(ch) Gwnaed cais i ofyn i'r Aelod Cabinet Gofal am wybodaeth ynglŷn â datblygiadau o gynlluniau ymgynghori Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

(d) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn ag adroddiad ar ddiogelwch wrth ymdrin ag asbestos yn adeiladau'r Cyngor, nododd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu bod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ymdrin â'r mater hwn fel rhan o'i hymchwiliad craffu.

**Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo:**

**(i) i'r Gweithgor Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg ystyried a thrafod crynodeb o Hunan Arfarniad yr awdurdod Addysg ar 22 Ionawr 2013.**

**(ii) Bod holl Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn derbyn copi o'r Hunan Arfarniad gan roi cyfle iddynt gyfeirio unrhyw sylwadau unigol pe dymunent yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth Addysg.**

**(b) Gofyn i'r Aelod Cabinet Gofal gyflwyno gwybodaeth gefndirol ynglŷn â datblygiadau o gynlluniau ymgynghori Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu hwn sydd i'w gynnal ar 17 Ionawr 2013.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.20 pm.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **DYDDIAD** | 21 Chwefror 2013 |
| **TEITL** | Ymateb Cyngor Gwynedd i Adroddiad Cyd Arolygu Sir Benfro |
| **AWDUR (ON)** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r prif ddatblygiadau o fewn Cyngor Gwynedd wrth ymateb i adroddiad cyd-arolygu i ddiogelwch plant ym Mhenfro ac yn ymateb i pwyntiau penodol ar gais y Pwyllgor Craffu.

## 2. CEFNDIR

2.1. Ym mis Awst 2011 fe gyhoeddwyd adroddiad ar y cyd gan Estyn a'r Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â threfniadau diogelwch plant ym Mhenfro.

2.2. Mynegwyd pryderon gan yr Arolygwyr am yr ymateb corfforaethol i'r honiadau o gam-drin proffesiynol, a'r trefniadau ar gyfer diogelu plant o fewn Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Penfro.

2.3. Arweiniodd hyn tuag at ymyrraeth gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal, fe anfonwyd llythyr ar y cyd gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol i Arweinydd bob Cyngor yn galw am adolygiad o drefniadau i reoli honiadau o gam-drin proffesiynol o fewn pob Awdurdod Lleol. Gofynnwyd yn ogystal i bob Awdurdod sicrhau bod trefn yn ei le er sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn derbyn gwyriad CRB.

2.4. Roedd y prif faterion allweddol a godwyd yn adolygiad y Cyd Arolygiaethau o drefniadau **yn Sir Benfro** fel a ganlyn:

- Bod diffyg goruchwyliaeth gan aelodau etholedig a swyddogion, ar y lefel uchaf o fewn yr awdurdod, o reoli a thrin achosion o gam-drin proffesiynol honedig yn y gwasanaethau addysg;
- Bod y diffyg arweinyddiaeth a llywodraethu strategol mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant yn adlewyrchu methiannau penodol o fewn diwylliant yr awdurdod yn ei gyfanrwydd;
- Gorddibyniaeth ar sesiynau briffio anffurfiol;
- Diffyg systemau sicrhau ansawdd effeithiol;
- Ychydig iawn o dystiolaeth o ddull seiliedig ar hawliau o ddiogelu plant mewn gwasanaethau addysg;
- Roedd absenoldeb trywydd archwilio clir [cadw cofnodion] o wneud penderfyniadau ac adrodd ar bob lefel ar draws y system yn yr awdurdod yn nodwedd amlwg o'r ymchwiliad. Nid oedd gan unrhyw un drosolwg clir o faterion diogelu ac amddiffyn plant yn y gwasanaethau addysg;
- Ni fu achosion mawr o gam-drin proffesiynol yn destun craffu a herio drwy'r sianelau arferol;
- Roedd absenoldeb o asesiadau risg o unigolion a allai beri risg o niwed sylweddol i blant;
- Roedd triniaeth arw a defnydd amhriodol o ataliad a thechnegau rheoli ymddygiad wedi bod yn nodwedd amlwg mewn nifer o'r achosion yr ymchwiliwyd iddynt;
- Nid oedd gan rhai o'r staff a oedd yn gweithio gyda phlant y gwiriad CRB gofynnol neu eirdaon ysgrifenedig yn eu lle;

- Nid oedd monitro Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn ddigon cadarn;
- Nid oedd Lefel 1 [hyfforddiant diogelu rhagarweiniol sylfaenol] yn ddigonol/gymesur â'r lefelau ychwanegol o gyfrifoldebau diogelu rhai staff [e.e. llywodraethwr ysgol dynodedig, aelodau etholedig, rheolwyr dynodedig].

2.5. Ym mis Rhagfyr 2012 [17/12/12] cyhoeddwyd 'Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc yng Nghyngor Sir Benfro' gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru. Ynddo dyfarnir gwasanaethau addysg yn anfoddhaol oherwydd :

- nid yw perfformiad mewn ysgolion cynradd yn cymharu'n dda gyda pherfformiad ysgolion tebyg mewn awdurdodau eraill ledled Cymru;
- Gormod o ysgolion cynradd yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim;
- nid yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer cefnogi a herio ysgolion yn ddigon trylwyr;
- **nid yw'r awdurdod wedi gwneud digon o gynnydd wrth reoli a llywodraethu diogelu trwy ymgorffori'r newidiadau y mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi'u gwneud i arferion i roi sicrwydd digonol bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno**; a
- bod yr awdurdod yn ymateb yn rhy araf i'r lefel gynyddol o leoedd dros ben yn y sector uwchradd.

2.6. Yn benodol rhan hyrwyddo lles a diogelu plant dyfarnir ymhellach:

- er cynllun gweithredu cynhwysfawr i ymateb i bryderon sylweddol am ansawdd diogelu mae'r awdurdod wedi **treulio gormod o amser yn cymryd camau adferol i ddelio â'r diffygion a nodwyd mewn adroddiadau arolygu, heb fynd i'r afael â'r materion diwylliannol** [h.y. diffyg arweinyddiaeth/diffyg craffu ansawdd/rolau a chyfrifoldebau uwch reolwyr yn aneglur/diffyg her effeithiol/gorddibyniaeth ar sesiynau briffio anffurfiol ayb] a arweiniodd at y barnau anfoddhaol yn yr adroddiadau yn y lle cyntaf;
- er gwaethaf y gwelliannau mewn diogelu a nodwyd gan yr awdurdod yn eu hunanarfarniad a chan yr arolygiaethau, mae'r awdurdod lleol wedi rhoi barn **rhy gadarnhaol i'w hyn** – sef ei fod wedi gwella'n sylweddol;
- **yr awdurdod yn canolbwyntio gormod ar gyflawni tasgau [o fewn y drefn adrodd] heb ddadansoddiad effaith newidiadau i arfer ar lefel gwasanaeth** neu nodi gwelliannau yng ngwybodaeth, agweddau neu gymhwysedd athrawon a swyddogion wrth ddelio â rheoli diogelu yn ddigon da. Bu hyn yn wendid, sydd wedi rhwystro cynnydd yn y maes hwn.

2.7. **Dyfarnir gan Estyn fod yr awdurdod yn disgyn i'r categori o fod angen mesurau arbennig**.

## 3. YMATEB Y CYNGOR

3.1. Fel rhan o'r ymateb i lythyr y Gweinidogion, sefydlwyd Panel Strategol Diogelwch Plant a Phobl Ifanc o fewn y Cyngor, yn cynnwys yr Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc (Cyng. Sian Gwenllian) a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Cyng. R. H. Wyn Williams). Aelodau eraill y Panel yw'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Iwan T. Jones), Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (Morwena Edwards), Pennaeth Adnoddau Dynol, Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth Addysg.

3.2. Gwelwyd rôl allweddol i'r Panel er mwyn sicrhau bod trefniadau corfforaethol clir yn eu lle er mwyn gweithredu ar argymhellion adroddiad Penfro.

3.3. I'r perwyl hynny, comisiynwyd Ymgynghorydd Annibynnol er mwyn rhoi cynllun prosiect ar waith, gan sicrhau bod eglurdeb yn bodoli ynglyn â'r modd y byddai'r Awdurdod yn ymateb i'r argymhellion.

3.4. Er mwyn cydlynu gweithrediadau angenrheidiol, ynghyd a datrys cyfrifoldeb am faterion gweithredol yn codi o'r Cynllun Prosiect, mae Grwp Prosiect wedi'i sefydlu sy'n cynnwys Uwch Reolwyr a Rheolwyr o'r Gwasanaethau perthnasol. Cadeirydd y Grwp Prosiect yw Geraint Owen, sef Uwch Reolwr Adnoddau Dynol. Bydd y Grwp Prosiect yn atebol am eu gwaith i'r Panel Strategol ac yn cyflwyno adroddiadau ynglyn â'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Prosiect i'r Panel Strategol yn rheolaidd.

3.5. Wrth ystyried effaith y newidiadau diweddar mewn canllawiau/deddfwriaeth a chasgliadau'r ymarfer cwmpasu mae **chwe pharth neu ffrydiau gwaith [Is Gynlluniau Rheoli]** yn cael eu blaenoriaethu fel a ganlyn:

**1. Bod Plant a Phobl Ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin proffesiynol a niwed gan weithlu diogel sydd wedi'u hyfforddi'n dda.**

Cynnydd sylweddol: e.e. Awdit o holl achosion/atgyfeiriadau o gam-drin proffesiynol wedi ei gwblhau. Adroddiad llawn gydag argymhellion ger bron Panel Strategol nesaf.

**2. Bod Plant a Phobl Ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin proffesiynol a niwed gan lywodraethu corfforaethol a threfniadau adrodd clir a thryloyw.**

Cynnydd sylweddol: e.e. trefniadau adrodd i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Môn wedi eu cadarnhau. Trefniadau adrodd corfforaethol clir wrth drin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol mewn lle trwy'r Panel Strategol i'r Cabinet. Cylch Gorchwyl y Panel mewn lle.

**3. Staff sy'n parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn gwneud hynny mewn cydymffurfiaeth â gofynion statudol a pholisi Cyngor Gwynedd [h.y. yn cydymffurfio â SCT/CRB gyda geirdaon addas mewn lle].**

Cynnydd sylweddol ond o fewn cyd-destun dechreuad/sylfaen hanesyddol isel. Datganiad sefyllfa wedi ei gwblhau. 20% o staff perthnasol heb CRB. 64% o staff perthnasol heb 2 eirda. Pryder amlwg yn parhau ond cynlluniau adfer mewn lle. Adnodd ychwanegol yn cefnogi'r broses. Angen cadarnhau polisïau'r Cyngor yng ngoleuni deddfwriaeth/cyfarwyddiadau newydd.

**4. Staff a rheolwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol parhaus drwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldebau.**

Cynnydd sylweddol. Nifer sylweddol iawn o gyrsiau hyfforddiant perthnasol wedi eu comisiynu.

**5. Trefniadau cytundebol cadarn ar waith lle mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu neu'n rheoleiddio gwaith gyda phlant a phobl ifanc oddi wrth asiantaethau/cyrff eraill.**

Rhai gwasanaethau yn cwblhau awdit. Cais i gomisiynu awdit monitro cytundebau o fewn rhaglen waith gwasanaeth Archwilio a Rheoleiddio. Cyflwyno Adroddiad Allbwn yr awdit i'r Pwyllgor Archwilio. Angen ystyried capasiti ychwanegol parthed sicrhau ansawdd darpariaeth breswyl gan gyrff allanol. Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu achos busnes.

**6. Cronfa ddata gorfforaethol effeithiol ac integredig sy'n cofnodi holl staff a gyflogir gan Gyngor Gwynedd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.**

Materion dadleuol. Angen sicrhau balans rhwng hawliau dynol/deddf rhyddidau a chynnal gweithlu diogel. Briff a 'rhestr manylion' wedi'i gytuno. Grwp Tasg penodol yn llywio'r gwaith. I gynnwys record o honiadau yn erbyn staff y Cyngor.

3.6. Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli gweithredol a gweithredu'r Cynllun Prosiect a'i Is Gynlluniau Rheoli yn aros gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth ac uwch reolwyr ar draws gwasanaethau'r cyngor sydd wedi'u cyfethol i'r Grŵp Prosiect.

3.7. Gweler **Atodiad 1** sef yr holl bwyntiau gweithredu o fewn y Cynllun Prosiect gyda statws cynnydd [defnyddir ffurf RAG]. Mae statws cynnydd y pwyntiau gweithredu wedi eu cytuno gan y Panel Strategol [18/1/13]. Angen nodi yn arbennig rhan olaf o'r atodiad statws cynnydd sef : 'Rheoli Newid - Mesur Effaith y Cynllun Prosiect'. Y pennod olaf yma yn cryfhau ymateb a chyfarch prif faterion allweddol oddi wrth Adroddiad Arolygiaeth Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru [cyhoeddwyd Rhagfyr 2012].

3.8. Gweler **Atodiad 2** sef 'Cylch Gorchwyl' y Panel Strategol.

## 4. MATERION/CWESTIYNAU PENODOL

### 4.1. Cynllun Prosiect yn cyfarch y prif bwyntiau o Arolygiad y Swyddfa Archwilio ac Estyn

Yn sicr mae'r Cynllun Prosiect o dan oruchwyliaeth ac arweinyddiaeth y Panel Strategol a gwaith y Grwp Prosiect wedi atgyfnerthu ymateb Cyngor Gwynedd i'r prif faterion allweddol . Cynnydd sylweddol wedi cymryd lle - ond rhaid cydnabod dechreuad o sylfaen isel yn enwedig felly rhan gwiriadau CRB a sicrhau geirdaon mewn lle.

Tystiolaeth o ddadansoddi ansoddol h.y. mesur effaith y rhaglen waith yn rhan greiddiol o'r Cynllun Prosiect. Gwasanaethau yn datblygu awdit 'iechyd diogelwch' i fesur effaith newidiadau diweddar ar arfer gwasanaeth. Yn sicr hefyd mae'r Panel Strategol wedi cryfhau cymhelliant aelodau arweiniol i herio adroddiadau oddiwrth swyddogion a chryfhau trefniadau adrodd corfforaethol.

Mae sefydlu'r Panel Strategol Diogelwch a'r Grwp Prosiect yn gam mawr ymlaen er mwyn cyd-gordio materion diogelwch ar draws y Cyngor.

Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y gwyddoch, gyfrifoldeb terfynol ac anrhanadwy ar faterion amddiffyn. Bydd y trefniadau hyn hefyd yn ceisio cefnogi'r Cyfarwyddwr i ddiwallu yn llawn yr angen i sicrhau bod trefniadau lleol effeithiol yn eu lle.

### 4.2. Monitro a herio'r holl ysgolion a defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio [Arg 3 o Arolygiad Sir Benfro]

Rhan diogelu plant mae'r Adran Addysg wedi blaenoriaethu rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr i Benaethiaid, Athrawon gyda chyfrifoldeb dynodedig dros amddiffyn plant a llywodraethwyr dynodedig[ Lefel 2], diweddaru Polisi Addysg - Diogelu Plant, diweddaru polisi 'Defnydd o Ataliaeth ac Amser Allan' [gyda rhaglen hyfforddiant i ddilyn] a sicrhau adnoddau digonol i adnabod a phrosesu gwiriadau CRB a sicrhau dau eirda mewn lle. Wedi defnyddio pwerau i fynnu ar asesiadau risg unigol [ lle nad oes geirda mewn lle] a chyhoeddi datganiad clir gydag elfen o orfodaeth [ trwy lythyr unigol] o'r angen i gwblhau ffurflen cais CRB ar frys.

**4.3. A oes gwersi i'w dysgu yn deillio o'r Arolygiad yn Sir Benfro ?**

Mae'r gwersi i'w dysgu yn cael eu hadlewyrchu yn y chew pharth neu ffrydiau gwaith [gweler 3.5 uchod]. Rhaid parhau hefyd i fod yn wyliadwrus o hunanarfarniadau rhy hael, canolbwyntio gormod ar adrodd ar y tasgau a gyflawnir heb mesur effaith a sicrhau diwylliant gwaith corfforaethol agored a thryloyw sydd yn croesawu her a chraffu ansawdd.

**4.4. A yw'r Adran Addysg, o fewn y pedair blynedd diwethaf , wedi gwirio ffurflenni CRB pob aelod o staff sy'n ymdrin â phlant ynghyd â llywodraethwyr?**

O'r swyddi sydd wedi eu hadnabod gyda'r angen am wiriad CRB hyd yma [Ysgolion] mae'r ffurflenni i gyd wedi'u derbyn gan yr Adran Addysg [ ac eithrio 4 aelod o staff sydd ddim yn eu gwaith - 2 wedi'u hatal a 2 ar salwch tymor hir]. Ond yn llythrennol cannoedd o'r ffurflenni yma yn cael eu prosesu gan y Gwasanaeth Dadleniad a Gwahardd [ swyddfa yn Lerpwl] ar hyn o bryd.

Nid yw'r ymateb gan lywodraethwyr cystal hyd yma. Nid yw pob llywodraethwr wedi cyflwyno ffurflen. Mae'r Adran Addysg yn dilyn trefniadau adferol.

**4.5. A yw'r Adran Addysg , o fewn y pedair blynedd diwethaf, wedi gwirio tystlythyrau Penaethiaid ac athrawon a'r holl staff sy'n ymwneud â phlant ?**

Adran Addysg yn gweithredu ar y mater ers mis Ionawr 2013. Cynnydd sylweddol. Lle nad oes tystlythyrau mewn lle ffurflen asesiad risg wedi ei gwblhau. Dadansoddiad gyda sicrwydd llawn o'r niferoedd ddim ar gael eto – geirdaon yn parhau i gyrraedd yr Adran Addysg.

**4.6. Beth yw trefniadau ynglyn â gwiro CRB disgyblion Blwyddyn 10 pan yn mynychu profiad gwaith?**

Mae pob cyflogwr/lleoliad sy'n cynnig profiad gwaith estynedig i ddysgwyr Blwyddyn 10 ymlaen yn cael ei wirio drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gyrfa Cymru ar ran Gwynedd ac Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys CRB's.

**4.7. Beth yw'r newidiadau arfaethedig ym mis Ebrill ynglyn â gwirio CRB ?**

Y newid mwyaf sylfaenol fydd creu basdata canolog 'Gweithlu Diogel'. Mi fydd y basdata yn cynnwys holl staff sydd yn gweithio gyda plant ac oedolion bregus o fewn y Cyngor [h.y. sydd angen CRB]. Mi fydd yn creu atgof i reolwyr perthnasol ddiweddaru CRB [ bob tair blynedd] a hefyd yn gofnod o honiadau o gam drin proffesiynol [lle cynhelir Cyfarfod Strategaeth Rhan 4 or Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan]. Amlwg gyda mynediad cyfyngedig. Adnoddau Dynol yn arwain. Ar hyn o bryd mae 'briff/manyleb gweithredol' y system yn destun i gyngor cyfreithiol allanol.

Am y tro cyntaf mi fydd basdata 'Gweithlu Diogel' Cyngor Gwynedd yn cynnig trosolwg cyflawn o staff sydd yn gweithio gyda plant ac oedolion bregus o fewn y Cyngor ac o honiadau o gam- drin proffesiynol [ gyda deilliant unrhyw ymchwiliad].

## 5. ARGYMHELLION

5.1. I gymeradwyo cyfeiriad y gwaith hyd yn hyn wrth ymateb i adroddiad yr Arolygwyr i ddiogelwch plant yn Sir Benfro.

ITJ/EWJ/ls
13.02.13

**<u>Cynllun Rheoli Prosiect :Ymateb i Adroddiad Cyd Arolygu Sir Benfro</u>**

**Statws Cynnydd : Ionawr 2013**

**Allwedd Statws:**

**Coch – Angen gweithred adferol.**
**Oren – Cynnydd ond peth oedi.**
**Gwyrdd – Ar y llwybr iawn.**
**Glas – Wedi ei gwblhau.**

- ❖ **Yn dynodi blaenoriaeth.**

1. **Trefniadau aml-asiantaeth cadarn yn eu lle ar gyfer trafod a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol.**

| Gweithredu | Pwy [Cyfrifoldeb Arweiniol] | Pryd | Sylwadau | Canlyniad | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| a] Adolygiad a gweithredu'r canllawiau diwygiedig: y defnydd o ataliaeth ac 'amser allan'. | Delyth Molyneux | Mawrth 2013 | Angen sicrhau bod polisïau rheoli ymddygiad Cyngor Gwynedd yn cael eu deall a'u cadarnhau. Cyrff Llywodraeth Ysgolion wedi eu mabwysiadu | Diogelu plant gydag anghenion ychwanegol. | |
| b] Gweithrediad [1a] uchod wedi'i gefnogi gan hyfforddiant staff perthnasol | Delyth Molyneux | Ebrill 2013 | Rhaglen mewn lle. Blaenoriaethu Unedau Cyfeirio Disgyblion [Uned Bryn Ffynon a Llwybrau Ni] ac Ysgolion Arbennig [Hafod Lon a Pendalar] | Gweithredu ymarfer da. | |
| c] Cynnal archwiliad o'r holl achosion unigol / atgyfeiriadau o gam-drin proffesiynol yn ystod y chwe mis diwethaf. Canolbwyntio | Marian Parry Hughes | Ionawr 2013 | I'w gynnwys yn Rhaglen Awdit Gwasanaethau Plant | Ymwybyddiaeth o'r drefn. Dysgu parhaus. Mewn sefyllfa i gymryd camrau adferol os bu angen. | ❖ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ar:<br>Amseroldeb yr atgyfeiriadau<br>Presenoldeb yng Nghyfarfodydd Strategaeth Rhan 4<br>Cofnodi a Chyfathrebu'r canlyniad.<br>Asesu Risg - Unigolion<br>Llais y Plentyn<br>Nodi Tueddiadau | | | | | |
| ch] Cyflwyno a chwblhau 'Ffurflen Monitro-Cyfarfodydd Strategaeth Rhan 4' | Marian Parry Hughes | Ionawr 2013 | | Trosolwg o allbwn mewn lle - dros amser. | |

**2. Trefniadau adrodd clir i'r Prif Weithredwr, yr arweinwyr portffolio, y Cabinet a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant wrth drin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol.**

| Gweithredu | Pwy [Cyfrifoldeb Arweiniol] | Pryd | Sylwadau | Canlyniad | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| a] Pob honiad unigol o gam-drin proffesiynol yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant | Marian Parry Hughes | Hydref 2012 | Bwrdd wedi penderfynu derbyn gwybodaeth - nifer honiadau, pa broffesiwn a chanlyniad y broses gydag adrodd ar faterion oedd yn achosi pryder o ran unrhyw oediadau neu ddiffyg mewn ymarfer.<br>Cynnwys yn Adroddiad Chwarterol Cyd-Lynnydd Amddiffyn Plant.<br>Nid oes | Trefniadau adrodd clir i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant wrth drin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dymuniad i greu Is Grwp Cam-Drin Proffesiynol arwahân. Tystiolaeth o graffu / sicrwydd ansawdd? | | |
| b] Adroddiad Chwarterol yn crynhoi trin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol i'r Panel Strategol. | Marian Parry Hughes | Ebrill 2013 | Sesiynau briffio anffurfiol yn annigonol.<br>Bydd yn wybodaeth ddienw.<br>Adroddiad i gynnwys amseroldeb yr atgyfeiriadau, presenoldeb yng Nghyfarfodydd Strategaeth[Rhan4],<br>cofnodi a chyfathrebu'r canlyniad,<br>asesu risg – unigolion,<br>llais y plentyn a nodi tueddiadau..<br>Canolbwyntio ar graffu a sicrwydd ansawdd. | Trefniadau adrodd clir i'r arweinwyr portffolio wrth drin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol. | |
| c] Copi o Adroddiad Chwarterol [2b uchod] i Benaethiaid Gwasanaeth perthnasol. | Marian Parry Hughes | Ionawr 2013 | | Trefniadau adrodd clir i Benaethiaid Gwasanaeth wrth drin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol. | |
| ch] Panel Strategol i gadarnhau trefniadau adrodd ar lefel corfforaethol. | Aelodau Panel Strategol | 6ed o Dach 2012 | Cylch Gorchwyl wedi ei gadarnhau. Angen ystyriaeth pellach os ehangu Cylch Gorchwyl i gynnwys materion diogelu plant yn | Trefniadau adrodd clir ar lefel corfforaethol wrth drin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol. | ❖ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ei gyfanrwydd. | | |

**3. Staff sy'n parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn gwneud hynny mewn cydymffurfiaeth â gofynion statudol a pholisi Cyngor Gwynedd [h.y. yn cydymffurfio â SCT/CRB gyda geirdaon addas mewn lle].**

| Gweithredu | Pwy [Cyfrifoldeb Arweiniol] | Pryd | Sylwadau | Canlyniad | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| a] Adolygu a diweddaru polisi'r Cyngor yng ngoleuni'r diwygiadau diweddar gan y Swyddfa Gartref/CRB a gweithredu'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 | Geraint Owen | Ionawr 2013 | Bydd yn diffinio pa swyddi sydd angen naill ai CRB Safonol neu CRB Manwl. Mae pa mor aml fydd angen gwiriad CRB yn dibynnu ar ganllawiau a safonau sector. Y norm yw bob 3 blynedd ar gyfer swyddi mewn gweithgaredd rheoledig. Awgrymir Llywodraethwyr Ysgol bob pedair blynedd oherwydd cylch penodi. | Cyngor yn cydymffurfio yn gyson gyda gofynion statudol cyfredol a safonau cydnabyddedig. | ❖ |
| b] Polisi'r Cyngor yn cael ei ddosbarthu a rheolwyr / gweinyddwyr / llofnodwyr CRB yn cael eu cefnogi trwy 'weithdai codi ymwybyddiaeth gorfforaethol' | Geraint Owen | Mawrth 2013 | Rhaglen 'weithdai codi ymwybyddiaeth' mewn lle. Sesiynau i gymryd lle ar y 29/1/13, a 31/1/13. | Cefnogaeth i reolwyr mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion statudol a safonau cydnabyddedig | |
| c] I sicrhau bod gwiriadau CRB yn cael eu cynnal. | Owen Owens<br>Marian Parry Hughes<br>Gwenno Williams<br>Catrin Thomas | Rhagfyr 2013 | | Cyngor yn cynnal gweithlu diogel. | ❖ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Geraint Owen<br>Mari Powell-Jones<br>[Rheolwyr Perthnasol]. | | | | |
| ch] I sicrhau bod trefniadau ar gyfer gwiriadau CRB yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. | Geraint Owen.<br>Mari Powell-Jones. | Ebrill 2013 | Adnodd ychwanegol mewn lle.<br>Bwriad/polisi wedi'i gytuno. | Cyngor yn cynnal gweithlu diogel. | |
| d] I sicrhau bod dau eirda yn eu lle [cymeriad a phroffesiynol] | Owen Owens<br>Marian Parry Hughes<br>Gwenno Williams<br>Catrin Thomas<br>Geraint Owen<br>Mari Powell-Jones<br>[Rheolwyr Perthnasol] | Mawrth 2013 | Canolbwyntio ar natur y swydd yn hytrach na dyddiad hanesyddol y penodiad. | Cyngor yn cynnal gweithlu diogel. | |
| dd] Pob maes gwasanaeth i gynnal archwiliad o 'fylchau' o fewn eu gweithlu mewn perthynas â swyddi sy'n cael eu dal yn gyfredol sydd angen CRB a geirda yn eu lle - ond dim wedi'u cofnodi. | Owen Owens<br>Marian Parry Hughes<br>Gwenno Williams<br>Catrin Thomas<br>Geraint Owen<br>Mari Powell-Jones<br>[Rheolwyr Perthnasol] | Rhagfyr 2012 | Mae rhai gwasanaethau [e.e. Yr Adran Addysg, Gwasanaeth Ieuenctid, Darpariaeth Gofal] eisoes wedi cynnal adolygiad/ archwiliad mawr o'u sefyllfa ac mae ganddynt gynlluniau ar waith i gymryd camau adfer. Mae angen i wasanaethau nad ydynt wedi gwneud archwiliad o'r fath ei wneud yn glir gydag Adnoddau Dynol y | Cyngor yn cynnal gweithlu diogel. Gwasanaethau yn ymwybodol o 'fylchau' a Chynllun Adfer mewn lle. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cyfrifoldeb a'r gallu i gwblhau adolygiad o'r fath. | | |
| e] Y defnydd o bolisïau recriwtio diogel Cyngor Gwynedd i'w harchwilio drwy bresenoldeb personél Adnoddau Dynol ar hap sampl o Baneli Cyfweld dros gyfnod o chwe mis. | Geraint Owen | Mawrth 2013 | Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am drefn a gweinyddiaeth y broses benodi. Nid yw staff Adnoddau Dynol yn mynychu cyfweliadau. Angen tystiolaeth o ddefnydd cyson o brosesau recriwtio diogel/ cynnwys cyfweliadau / aelodaeth y panel ayb | Cyngor yn cynnal recriwtio diogel gyda thystiolaeth o gydymffurfiaeth gyda gofynion statudol. | |
| f] I sicrhau bod polisïau Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio gyda Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan i'r graddau y maent yn ymwneud â rheoli a thrin honiadau o gam-drin proffesiynol. | Geraint Owen.<br>Llyr Bryn Roberts.<br>Ian Roberts. | Chwef 2013 | I gynnwys ystyried cyfeirio at Gynllun Fetio a Gwahardd [Awdurdod Diogelu Annibynnol]. Defnyddio asesiadau risg unigol. Codi ymwybyddiaeth o'r camau angenrheidiol i'w cymryd yn ystod ymchwiliad [atal, ail-leoli, cyfathrebu, cofnodi,]. | Cyngor yn cynnal gweithlu diogel ac yn amddiffyn plant rhag cam-drin proffesiynol. | |
| ff] I sicrhau defnyddiant asesiadau risg unigol – cam-drin proffesiynol. | Delyth Molyneux<br>Gwenno Williams<br>Catrin Thomas<br>Geraint Owen<br>Marian Parry Hughes | Mawrth 2013 | Rhai rheolwyr yn nodi diffyg hyder/medrusrwydd i gwblhau asesiad risg unigol o droseddwyr honedig o gam-drin proffesiynol. Cysylltiad gyda | Rheolwyr yn cwblhau asesiadau risg o unigolion [cam-drin proffesiynol] a allai beri risg o niwed sylweddol i blant. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mari Powell Jones | | [3f] uchod. Datblygu/addasu templed | | |

4. **Staff a rheolwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol parhaus drwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldebau.**

| Gweithredu | Pwy [Cyfrifoldeb Arweiniol] | Pryd | Sylwadau | Canlyniad | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| a] Dylai'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu sylfaenol [Lefel 1] fel rhan o'u rhaglen sefydlu [drwy'r Matrics Hyfforddiant Corfforaethol].Hefyd dylai fod ar gael i staff presennol fel 'hyfforddiant gloywi' bob 5 mlynedd. | Carey Cartwright [ cynllunio]. Llyr Bryn Roberts [cynnwys]. | Mawrth 2013 | Yn cynnwys Llywodraethwyr Ysgol. Cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y broses o gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu sylfaenol. Fodd bynnag mae rhai bylchau o hyd. Ar y lefel hon efallai bod y defnydd o e-ddysgu [e.e. Add - Gofal] yn ddigonol. Angen ystyried a yw cwblhau/ presenoldeb mewn hyfforddiant o'r fath yn orfodol. | Gweithlu plant a phobl ifanc yn ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu. Yn adnabod yr angen i gyfeirio/sut i ymdrin ag achosion unigol. Wedi ei gynnwys ym matrics hyfforddiant corfforaethol Cyngor Gwynedd. | |
| b] Yr holl staff a rheolwyr sydd â chyfrifoldebau diogelu ychwanegol yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol drwy hyfforddiant Lefel 2. | Delyth Molyneux Owen Owens Gwenno Williams | Rhaglen hyfforddi mewn lle Mawrth 2013 | Yn cynnwys Llywodraethwr Ysgol Dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant a Swyddogion / Rheolwyr Dynodedig sy'n gyfrifol am oruchwylio amddiffyn plant | Rheolwyr dynodedig sydd â chyfrifoldebau diogelu ychwanegol yn ymgymryd â hyfforddiant Lefel 2. Yn adnabod yr angen i atgyfeirio/sut i ymdrin ag achosion unigol. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | o fewn eu sefydliad.<br>Mae peth Hyfforddiant Lefel 2 wedi digwydd [e.e. Gwasanaeth Ieuenctid]. Fodd bynnag mae bylchau sylweddol yn parhau. I gael diffiniad o gynnwys Hyfforddiant Lefel 1 a Lefel 2 gweler y ddogfen 'Datblygiad Proffesiynol Parhaus' a gyhoeddwyd ac a gymeradwywyd gan y BLIDP. | | |
| c] Pob rheolwr sydd â chyfrifoldebau penodol ar gyfer trin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol parhaus drwy hyfforddiant Lefel 3. | Ian Roberts | Rhagfyr 2013 | Comisiynu trwy'r BLIDP.<br>Efallai nad yw Hyfforddiant Lefel 1 a 2 yn ymdrin yn benodol â cham-drin proffesiynol. Angen Hyfforddiant pwrpasol Lefel 3 gyda ffocws ar drin a rheoli camdriniaeth broffesiynol. Byddai angen i'r rhai sy'n mynychu fod wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 1 a Lefel 2. | Rheolwyr dynodedig sydd â chyfrifoldebau penodol ar gyfer trin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol yn ymgymryd â hyfforddiant Lefel 3. | |

5. **Trefniadau cytundebol cadarn ar waith lle mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu neu'n rheoleiddio gwaith gyda phlant a phobl ifanc oddi wrth asiantaethau/cyrff eraill.**

| Gweithredu | Pwy [Cyfrifoldeb Arweiniol] | Pryd | Sylwadau | Canlyniad | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| a] Angen tystiolaeth uniongyrchol gan asiantaethau/cyrff bod recriwtio diogel, hyfforddiant diogelu priodol, a chydymffurfiaeth â CRB yn eu lle. | Owen Owens Uwch Reolwr Partneriaeth au Plant. [Rheolwyr Perthnasol]. | Mawrth 2013 | Cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran sicrhau bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle. Fodd bynnag – nid yw adnewyddu papur syml o gontract yn ddigon cadarn. Angen tystiolaeth ar sail 'angen gwybod' e.e. sampl o dystysgrifau CRB, cynnwys a nifer/dyddiad mynychu hyfforddiant diogelu. Pwyslais ar fonitro cytundebau. Nawr yn rhan o raglen waith Uned Archwilio Mewnol. | Trefniadau caffael effeithiol. Tystiolaeth o gydymffurfiaeth gyda gofynion statudol cyfredol a safonau cydnabyddedig oddi wrth gyrff allanol. | |
| b] Angen cadarnhad o enw'r rheolwr dynodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu o fewn asiantaethau/cyrff allanol a gomisiynir. | Owen Owens Uwch Reolwr y Partneriaeth au Plant. [Rheolwyr Perthnasol]. | Mawrth 2013 | Sicrhau llinell glir o atebolrwydd. Rhan o raglen waith 'Uned Archwilio Mewnol. | Tystiolaeth o gydymffurfiaeth gyda gofynion statudol cyfredol a safonau cydnabyddedig oddiwrth cyrff allanol. Trefniadau monitro cytundebau cadarn. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| c] I gasglu tystiolaeth yn canolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth breswyl gan asiantaethau allanol/cyrff / asiantaethau preifat i blant ag anghenion ychwanegol. | Marian Parry Hughes<br>Aled Gibbard<br>Delyth Molyneux<br>Owen Owens | Mawrth 2013 | Lleoliadau cost uchel.<br>Cysylltu â Hwb Comisiynu Gogledd Cymru.<br>Yn cynnwys craffu ar Adroddiadau Arolygu, coladu gwybodaeth gan Swyddogion Adolygu Annibynnol/ proses ddatganiadau lle bo hynny'n briodol.<br>Ymweliad lleoliad i graffu ar gydymffurfiaeth â'r contract - yn enwedig mewn perthynas â defnyddio technegau rheoli ymddygiad.<br>Capasiti i gwblhau?<br>Comisiynu capasiti allanol? | Tystiolaeth o gydymffurfiaeth gyda gofynion statudol cyfredol a safonau cydnabyddedig oddiwrth cyrff allanol.<br>Trefniadau monitro cytundebau cadarn - plant gydag anghenion dwys ac ychwanegol. | |

**6.Cronfa ddata gorfforaethol effeithiol ac integredig sy'n cofnodi holl staff a gyflogir gan Gyngor Gwynedd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.**

| Gweithredu | Pwy [Cyfrifoldeb Arweiniol] | Pryd | Sylwadau | Canlyniad | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| a] Adolygu ac addasu'r 'System Swyddi' i gynnwys yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac sydd angen gwiriad CRB. | Mari Powell-Jones | Mawrth 2013 | Trosolwg cyflawn o fanylion perthnasol yr holl staff a gyflogir gan Gyngor Gwynedd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc [ac oedolion | Gronfa ddata gorfforaethol yn cyflwyno trosolwg cyflawn o holl staff a gyflogir gan Gyngor Gwynedd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bregus] yn ofynnol drwy gronfa ddata gorfforaethol a chanolog. Angen dull cyson ar gyfer pob aelod o staff. **Mae'n amlwg yn fenter fawr - yn amodol ar 'Gynllun Prosiect' cysylltiedig ond ar wahân. Angen cymeradwyaeth strategol.** Goblygiadau o ran adnoddau? Efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol neu adlinio capasiti cyfredol i sicrhau dilysrwydd y system yn y tymor hir. | | |
| b] Nodi a rhestru y swyddi perthnasol sydd angen gwiriad CRB. | Geraint Owen | Ionawr 2013 | Bydd angen cydymffurfio â chanllawiau/diffiniad newydd CRB [gweler 3 a] uchod]. Adrannau i gadarnhau deiliad swyddi perthnasol. | Gronfa ddata gorfforaethol yn cyflwyno trosolwg cyflawn o holl staff a gyflogir gan Gyngor Gwynedd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. | ❖ |
| c] Datblygu cronfa ddata i gynnwys 'meysydd' ar gyfer CRB - nodiadau atgoffa ar gyfer adnewyddu, cyfeiriadau, honiadau o gam-drin proffesiynol a chanlyniad, cyfeiriad at Fetio a | Geraint Owen | Mawrth 2013 | Bydd rhai meysydd angen mynediad cyfyngedig. Angen cyngor cyfreithiol. | Trosolwg cyflawn o gam-drin proffesiynol holl staff a gyflogir gan Gyngor Gwynedd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Atgof o'r angen i adnewyddu CRB i | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwahardd | | | | reolwyr. | |
| ch] Prawf peilot /Nodi Bylchau | Alwyn E. Jones Geraint Owen | Ebrill-Mehefin 2013 | Angen nodi a chadarnhau gwasanaethau'r cyngor yn destun i'r peilot. | Gronfa ddata effeithiol ac effeithlon. | |
| d] Gweithredu | Alwyn E. Jones Geraint Owen | Rhagfyr 2013 | Yn destun i adolygiad a chanlyniad yr ymarfer peilot. | Gronfa ddata yn weithredol. | |

**Rheoli Newid – Mesur Effaith y Cynllun Prosiect.**

| Gweithredu | Pwy [Cyfrifoldeb Arweiniol] | Pryd | Sylwadau | Canlyniad | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| a] Rhaglen awdit blynyddol/Hwb Gwybodaeth wedi ei sefydlu o fewn gwasanaethau i ddadansoddi effaith newidiadau [uchod] i arfer ar lefel gwasanaeth. | Delyth Molyneux. Owen Owens. Catrin Thomas.. Geraint Owen. Gwenno Williams. | Mawrth 2013 | Awdit i gynnwys nodi gwelliannau yng ngwybodaeth agweddau â chymhwysedd staff a swyddogion wrth ymdrin â rheoli diogelu plant a phobl ifanc. Angen elfen o her allanol, annibynnol, cyfranogi/barn plant a phobl ifanc, gwerthuswyr cymheiriaid, 'siec iechyd' diogelwch. | Cyngor yn cynnal gweithlu diogel ac yn amddiffyn plant rhag cam-drin proffesiynol trwy gweithlu sydd yn blaenoriaethu dysgu parhaus, adnabod bylchau ac yn mesur effaith camau adferol. | |
| b] Cynllun Gweithredu mewn lle yn dilyn archwiliad o holl achosion unigol / atgyfeiriadau o gam-drin proffesiynol dros y12 mis diwethaf. | Marian Parry Hughes Delyth Molyneux Geraint Owen | Mawrth 2013 | | Dysgu parhaus. Tystiolaeth o effaith. camrau adferol. | |
| c] Cadarnhau Rhaglen Gwaith y | Aelodau Panel | Ebrill 2013 | Angen sicrhau arweinyddiaeth | Lefel ymwybyddiaeth | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Panel Strategol 2013-14 | Strategol. | | corfforaethol cadarn. Panel Strategol yn atgyfnerthu trefniadau adrodd. Cydgordio ymateb i arfarniad Arolygiaeth Estyn [Mawrth 2013] Cynnwys Diwrnod Datblygiadol i ddelio gyda diffygion/bylchau a nodwyd. Cynnwys dansoddiad o faterion diwylliannol all arwain at barnau anfoddhaol. | am ddiogelu ymhlith aelodau etholedig, penaethiaid a phartneriaid allweddol wedi cynyddu. Gwasanaethau ac aelodau etholedig wedi eu grymuso i wella deilliannau dymunol i blant a phobl ifanc sydd angen eu diogelu. | |

# Panel Strategol: Diogelu Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd. Cylch Gorchwyl [Drafft Terfynol]

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

1.2. Mae'r dilynol yn adlewyrchu 'Canllawiau Statudol ar Swyddogaethau ac Atebolrwydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' [cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru- Mehefin 2009]. Er bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n parhau i fod yr uwch swyddog yn y cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol llawn am ddiogelu plant.

1.3. Nid yw'r canlynol yn newid Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd. Y bwriad yw atgyfnerthu trefniadau adrodd presennol.

## 2. CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELWCH CYNGOR GWYNEDD

2.1. Nod y Panel yw sicrhau bod trefniadau diogelwch plant ac oedolion cadarn yn eu lle o fewn Cyngor Gwynedd.

2.2. Mi fydd y Panel yn gweithredu ar lefel Strategol er mwyn:

- Argyhoeddi Aelodau Arweiniol perthnasol (Aelod Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd) bod gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn pan fod materion diogelwch plant ac oedolion yn y cwestiwn;
- Dwyn ynghyd gwaith rhyngadrannol yn y maes diogelwch gan sicrhau cyfathrebu corfforaethol effeithiol;
- Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol o fewn y Cyngor;
- I ddatrys unrhyw rwystrau all fodoli rhag cael gweithdrefnau effeithiol a llwyddiannus yn eu lle;
- I dderbyn ac ystyried gwybodaeth am dueddiadau parthed honiadau o gam-drin proffesiynol, gan fabwysiadu cynllun gweithredu i ymateb pe bai'r angen yn codi;
- I dderbyn a herio gwybodaeth am y cynnydd yn erbyn rhaglenni gwaith sydd wedi eu comisiynu (rhoddir blaenoriaeth yn y tymor byr i'r rhaglen waith er ymateb i adroddiad cyd-arolygu Sir Benfro);
- I ystyried a deall oblygiadau Adolygiadau Achosion Difrifol a sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn effeithioli argymhellion o fewn adolygiadau o'r math;
- I dderbyn a herio Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol.

## 3. CADEIRYDDIAETH

3.1. Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc.

## 4. AMLDER CYFARFODYDD

4.1. Cyfarfodydd pob chwe wythnos [adolygu mis Mawrth 2013].

## 5. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

5.1. Y Panel Strategol yn ymatebol i Cabinet Cyngor Gwynedd. Mae hawl gan y Cadeirydd i gyfeirio materion i'r Cabinet os yn anfodlon.

5.3. Mae'r 'Grŵp Prosiect – Ymateb i Adroddiad Cyd Arolygu Sir Benfro' yn ymatebol i'r Panel Strategol.

5.4. Rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol -os bu angen ] trwy swyddogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

## 6. AELODAETH

| **Enw** | **Teitl** |
|---|---|
| Y Cyng. Sian Gwenllian | Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc |
| Y Cyng. R.H. Wyn Williams | Aelod Cabinet - Gofal [aelod arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Strategol] |
| Iwan Trefor Jones | Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| A. Morwenna Edwards | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Marian Parry Hughes | Uwch Reolwr – Gwasanaethau Plant [Gwasanaethau Cymdeithasol] |
| Dewi R. Jones | Pennaeth Addysg |
| Alwyn E. Jones | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| Geraint Owen | Uwch Reolwr – Adnoddau Dynol |
| Dilys A. Phillips | Pennaeth Democratiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Ian Vaughan Roberts | Rheolwr Busnes- BLIDP Gwynedd a Môn |

ITJ/EWJ/ls
18.12.12

Blaenraglen Craffu Mehefin 2012 ymlaen – Fersiwn 2.00 (07.02.13)

**Noder – mae hon yn raglen fyw sy'n cael ei diweddaru'n gyson**

A Pwyllgor Craffu Corfforaethol

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 1 | Strategaeth Gymunedol | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 2 | Strategaeth Arbedion | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 3 | Meddylfryd Systemau (Ymchwiliad Craffu) | 14.06.12 | 31.01.13 |
| 4 | Cynllun Gwella | 06.09.12 | 02.10.12 |
| 5 | Cydbwysedd Gwledig a Threfol | 06.09.12<br>02.10.12 | 13.12.12<br>07.03.13 |
| 6 | Partneriaethau a Chydweithio<br>Asesu cynnydd | 19.12.12 | |
| 7 | Caffael Cynaladwy | 19.12.12 | 31.01.13<br>07.03.13 |
| 8 | Cynllun Strategol y Cyngor | | |
| 9 | Y Cyngor a'r Cyhoedd<br>Trefniadau Ymgysylltu | | |
| 10 | Gweithlu<br>Cadw morál y gweithwyr yn uchel mewn cyfnod anodd | | |
| 11 | Cydweithio gydag Ynys Môn | | |
| 12 | Polisi ôl-troed Carbon<br>Asesu cyrhaeddiad | | |
| 13 | Cynllunio Argyfwng<br>Asesu cynnydd ar Adroddiad SAC | | |

07.02.13

B Pwyllgor Craffu Cymunedau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 14 | Cyflenwad a Fforddiadwyedd Tai | 18.07.12 | 04.09.12 |
| 15 | Ymchwiliad Craffu Tai | 18.09.12 | 05.02.13 |
| 16 | Ffordd Osgoi | 30.10.12 | 04.12.12 |
| 17 | Strategaeth Wastraff | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 18 | Cludiant<br>Cysondeb darpariaeth i Fyfyrwyr ar draws y Sir | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 19 | Ynni Gwynt<br>Trefniadau ymgynghori | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 20 | Grymuso Cymuned<br>Cydweithio gyda phartneriaid yn lleol | | |
| 21 | Balchder Bangor<br>Ystyried cynnydd a gwersi i'w dysgu a'u rhannu ar draws y Sir | | |
| 22 | Defnydd o Eiddo gwag<br>Ystyried effaith polisïau'r Cyngor a'i bartneriaid | | |
| 23 | Ffioedd Parcio<br>Ystyried cysondeb ar draws y Sir | | |
| 24 | Defnydd o lwybrau beicio<br>Ystyried cynnydd ar safon a defnydd | | |
| 25 | Parc Glynllifon a Pharc Padarn<br>Ystyried cynnydd | | |
| 26 | Rhandiroedd<br>Herio cyflawniad ar y polisïau cyfredol a'r is-ddeddfau perthnasol | | |
| 27 | Parthau Cadwraeth Morol | | |

07.02.13

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | Cynllun Prentisiaeth<br>Ystyried cynnydd | | |
| 29 | Cyflwr Ffyrdd Cefn Gwlad<br>Ystyried problemau a datrysiadau posibl | | |
| 30 | Twristiaeth<br>Asesu effaith ar economi Gwynedd | | |
| 31 | Casgliadau Ysbwriel<br>Angen gwybodaeth | | |
| 32 | Rheoli Carafanio Dros Nos<br>Angen gwybodaeth | | |
| 53 | Tai Cymdeithasol | 30.12.12 | 05.02.13 |
| 54 | Cyfnod Meddiannu Carafanau Sefydlog | 19.02.13 | |

C Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 33 | Gwasanaeth Ieuenctid<br>Cynnydd ar Raglen Wella'r Adolygiad | 25.06.12 | 31.07.12 |
| 34 | Strategaeth Addysg<br>Ystyried cynnydd hyd yn hyn<br>Sefydlu Gweithgor i gefnogi'r Aelod Cabinet<br>Cadarnhâd o'r goblygiadau | 25.06.12 | 31.07.12<br><br>13.09.12<br>15.11.12 |
| 35 | Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg | 25.06.12 | |
| 36 | Newid mewn Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | | 13.09.12 |
| 37 | Canolfannau Hamdden<br>Ystyried cynnydd ar yr Adolygiad Strategol | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 38 | Cynllun Comisiynu Anabledd Corfforol<br>Ystyried Cynnydd y Cynllun | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 39 | Anabledd ac Awtistiaeth | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ystyried gwybodaeth | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 40 | Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn<br>Ystyried gwybodaeth 'Urddas mewn Gofal' | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 41 | Plant mewn Gofal | | |
| 42 | Tiroedd a drosglwyddwyd i Cartrefi Cymunedol Gwynedd | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 43 | Darpariaeth Gwasanaethau'n Lleol | | |
| 44 | Llwybr i Gyflogaeth | | |
| 45 | Teleofal ac Offer Cefnogi Pobl | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 46 | Ymyrraeth Ddwys – Cefnogi Teuluoedd | | |
| 47 | Pobl Ifanc<br>Cynnydd ar ddarparu cyfleoedd i rai sy'n ddiwaith i gael mynediad i brofiadau gwaith a gwaith | | |
| 48 | Cynllun Tlodi Plant | | |
| 49 | Cefnogaeth i Ofalwyr | | |
| 50 | Panel Rhiant Corfforaethol | | |
| 51 | Materion o Gynllun Gwella 2011-12<br>- Cynlluniau Gwella Iechyd (Tud 79)<br>- Gwelliannau Iaith (Tud 84-86)<br>- | | |
| 52 | Adroddiad Gwasanaethau Plant Sir Benfro | 17.01.13 | 21.02.13 |

07.02.13